| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Medi 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Teitl:** | **Polisi Corfforaethol: Incwm, Ffioedd a Chodi Tâl** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Polisi sy'n nodi trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynhyrchu incwm a chodi tâl am wasanaethau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Dylid ystyried trefniadau'r Cyngor i gynhyrchu incwm ochr yn ochr â'r egwyddorion strategol ac mewn cysylltiad â'i flaenoriaethau a'i strategaethau allweddol, fel y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r ddogfen ynghlwm, 'Polisi Corfforaethol: Incwm, Ffioedd a Chodi Tâl' (Atodiad 1).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r Cyngor yn pennu cyllideb yn flynyddol i godi oddeutu £48 miliwn mewn ffioedd amrywiol (ac eithrio Treth y Cyngor, trethi busnes a rhenti tai cyngor). Mae'r gweithdrefnau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli incwm wedi eu nodi'n glir yn y Rheoliadau Ariannol ac yn cael eu hystyried yn ystod y broses gyllidebu flynyddol. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol nodi safbwynt mwy corfforaethol, gydag egwyddorion strategol, i gryfhau trefniadau'r Cyngor.

4.2 Mae atodiad 1 (ynghlwm) yn nodi'r polisi arfaethedig hwn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd polisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm yn helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y blaenoriaethau corfforaethol. Bydd y polisi hefyd yn helpu i nodi tybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gost ychwanegol uniongyrchol yn gysylltiedig â chymeradwyo'r polisi.

.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Mae'r adroddiad yn ystyried y polisi trosfwaol. Bydd yn rhaid i benderfyniadau codi tâl unigol ystyried y goblygiadau lles yn briodol. Mae adran 12 o'r polisi yn nodi: "Bydd yn rhaid i Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar Les wedi ei gynnal pan ystyrir newid polisïau codi tâl neu gyflwyno polisïau newydd."

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Cafodd y polisi ei ystyried gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar 7 Medi 2017. Mae copi o'r polisi wedi ei rannu gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd polisi corfforaethol sy'n nodi'r egwyddorion i'w dilyn o ran cynhyrchu incwm yn cryfhau trefniadau'r Cyngor ac o fudd i'r broses o gynllunio'r gyllideb.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb gyfarwyddyd polisi cyffredinol, gall penderfyniadau ynghylch ffioedd a chodi tâl fod yn anghyson â blaenoriaethau'r Cyngor a'r prosesau cynllunio cyllidebau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae ystod o bwerau ar gael, gan gynnwys:
Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Adran 93)
Deddf Llywodraeth Leol 2003
Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970
Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.